

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 16 Gorffennaf 2021** am 9.00am trwy fideo gynadledda.

Presennol

Jim Barclay
 Paul Barlow
 Laura Gough
 Yr Athro Maria Hinfelaar
 Lauren Hole
 Claire Homard
 Celia Jenkins
 Yr Athro Sandra Jowett
 Paul McGrady
 Judy Owen
 Maxine Penlington (Cadeirydd)
 Askar Sheibani
 David Subacchi
 Chloe Williams

Swyddogion:

Val Butterworth (*Clerc y Bwrdd*)
 David Elcock (*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*)
 Dr Aulay Mackenzie (*PVC Partnerships*)
 Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
 Yr Athro Claire Taylor (*Dirprwy Is-Ganghellor*)
 James Dawson (*Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr*) [*Eitemau 20.80 a 20.86 yn unig*]
 Ebony Banks (*Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr ar fin ymddeol o'r swydd*)
eitemau 20.87 i 20.95 yn gynhwysol yn unig

Ymddiheuriadau:

Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)
 Colin Heron
 David Sprake

| | | |
|--------------|---|--|
| 20.87 | Adroddiad adolygiad perfformiad y Cadeirydd | |
| | <p><i>Nid oedd Cadeirydd y Bwrdd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.</i></p> <p>Derbyniwyd: Adborth cryno o'r pecyn arolwg 360 gradd a ddefnyddiwyd i gynnal adolygiad perfformiad y Cadeirydd.</p> <p>Adroddwyd: Roedd yr Is-gadeirydd wedi trafod canlyniadau'r adolygiad gyda'r Cadeirydd, gan nodi fod adborth eraill ym mhob maes yn uwch na hunan asesiad y Cadeirydd. Fel yr adroddwyd yn flaenorol ystyriwyd y byddai dull Bwrdd cyfan o ymledu'r ymgysylltu â staff a'r Undeb Myfyrwyr yn fwy cyffredinol yn fuddiol. Er enghraifft, yn ychwanegol at ddiwyddiadau wedi'u trefnu'n ffurfiol, presenoldeb mewn darlithoedd gan Athrawon gwadd a darlithoedd eraill a gwobrau'r Undeb Myfyrwyr a digwyddiadau myfyrwyr cysylltiedig.</p> <p>Ymunodd y Cadeirydd â'r cyfarfod a diolchodd i'r aelodau am eu hadborth.</p> | |

| | | |
|--------------|--|--|
| | <p>Byddai'r pecyn arolwg 360 gradd a ddefnyddiwyd yn cael ei adolygu yn yr Hydref.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p> | |
| 20.88 | Croeso ac ymddiheuriadau | |
| | <p>Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. Croesawyd llywodraethwyr newydd i'w cyfarfod cyntaf a chyflwynwyd pawb er budd y llywodraethwyr nad oedd wedi medru bod yn bresennol yn y cyfarfod ar 15 Gorffennaf.</p> <p>Roedd Ebony Banks, Llywydd yr Undeb Myfyrwyr ar fin ymddeol o'r swydd, yn bresennol fel rhan o'r broses drosglwyddo i'r Myfyrwyr Lywodraethwyr newydd. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad arwyddocaol i'r Bwrdd ac am arwain gwaith yr Undeb Myfyrwyr yn ystod cyfnod heriol, mewn partneriaeth â'r Brifysgol.</p> | |
| 20.89 | Datgan buddiannau | |
| | Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau buddiannau ag unrhyw eitem ar yr agenda. | |
| 20.90 | Gweithredoedd y Cadeirydd | |
| | <p>Derbyniwyd: Adroddiad ar weithredoedd Cadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i gymeradwyo dyfarnu contractau yng nghyswllt dau brosiect Campws 2025 oherwydd y brys i gwblhau'r gwaith cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p> | |
| 20.91 | Aelodaeth | |
| | <p>Derbyniwyd: Diweddariad ynghylch yr aelodaeth a chynnig ynghylch penodi aelod cyfetholedig i'r Pwyllgor Archwilio.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p> <p>CYMERADWYO penodi Mr Richard Campbell fel aelod cyfetholedig y Pwyllgor Archwilio o 1 Medi 2021 tan 31 Awst 2022.</p> | |
| 20.92 | Cofnodion | |
| | <p>Derbyniwyd: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2021.</p> <p>Penderfynwyd: Cytuno fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.</p> | |
| 20.93 | Materion yn codi | |
| | <p>Derbyniwyd: Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p> | |

| | | |
|-------|---|----|
| 20.94 | Adroddiad yr Is-Ganghellor | |
| | <p>Derbyniwyd:</p> <p>(i) Adroddiad yr Is-Ganghellor ar y Cydweithredu Addysg Uwch yng Ngogledd Cymru a rhaglen llywodraethu Llywodraeth Cymru.</p> <p>(ii) Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ar gynllunio ar gyfer Addysg Uwch a dysgwyr sy'n oedolion mewn Colegau Addysg Bellach, lleoliadau dysgu yn y gweithle ac addysg gymunedol yn nhymor yr Hydref.</p> <p>Adroddwyd:</p> <p>Atgoffodd yr Is-ganghellor yr aelodau o'u cytundeb mewn egwyddor i ymchwilio i gyfleoedd Cydweithredu Addysg Uwch yng Ngogledd Cymru rhwng Prifysgol Glyndŵr a Bangor. Yn dilyn canlyniad cadarnhaol y cais i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar gyfer addysg iechyd a nyrsio, roedd Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor wedi adolygu'r sefyllfa erbyn hyn. Ar hyn o bryd mae'r ymgysylltu rhwng y ddwy brifysgol yn cael ei siapio gan roi'r dyfarniad gan AaGIC, cyflawni prosiectau'r Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch, adeiladu ar y rhaglen Addysg Broffesiynol Parhaus a chydweithredu ymchwil sy'n cael ei sefydlu, creu cynghreiriau yng nghyd-destun Bargaen Twf Gogledd Cymru a phrosiectau menter.</p> <p>Ar sail yr amrediad prosiectau cydweithredu wedi'u sefydlu eisoes, wedi'u cefnogi gan femorandwm dealltwriaeth wedi'i lofnodi gan y ddwy brifysgol, awgrymwyd y byddai'n well canolbwyntio ar lle roedd cydweithredu'n hanfodol ac yn cael effaith. Ystyriwyd y gallai'r meysydd lle mae gwaith yn digwydd eisoes neu wedi'u nodi arwain at ragor o gydweithredu yn organig. Penderfynwyd nad oedd unrhyw rinwedd yn penodi ymgynghorydd i greu sgôp ymchwilio ehangach. Byddai angen i unrhyw adnodd allanol, wedi'i gyllido'n botensial gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), gael ei asesu gan y naill sefydliad a'r llall er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda gyfredol.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r farn hon a gofynnwyd i'r Is-Ganghellor drafod y mater ag Is-Ganghellor Prifysgol Bangor a CCAUC.</p> <p>Roedd yr aelodau'n dymuno cofnodi eu bod yn llongyfarch y sefydliadau ar lwyddiant y ceisiadau i AaGIC.</p> <p>Penderfynwyd:</p> <p>NODI Adroddiad yr Is-Ganghellor.</p> <p>CADARNHAU'R dull a awgrymwyd o ran Cydweithredu Addysg Uwch yng Ngogledd Cymru.</p> | MH |
| 20.95 | Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr | |
| | <p>Derbyniwyd:</p> <p>(i) Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr.</p> <p>(ii) Adroddiad Effaith blynyddol yr Undeb Myfyrwyr 2020/21.</p> <p>Adroddwyd:</p> <p>Cyflwynodd Llywydd ac Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr eu hunain a thynnu sylw at bwyntiau allweddol o'u manifestoau. Roeddynt yn edrych ymlaen at eu cyfnod fel Llywodraethwyr. Tynnodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr sylw at y gwaith a'r gweithgareddau a wnaed ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai. Roedd hyn yn cynnwys y gwaith ar adolygu a diweddarau'r Siarter Myfyrwyr 2021/22 mewn partneriaeth â'r Brifysgol.</p> <p>Esboniwyd pwrpas Adroddiad Effaith yr Undeb Myfyrwyr a thynnwyd sylw at y llwyddiannau yn ystod 2020/21 dan y penawdau <i>gwella profiadau myfyrwyr, eiriol</i></p> | |

| | | |
|-------|---|--|
| | <p><i>dros ansawdd a chyflymu datblygiad personol.</i> Gwnaed cynnydd da ym mhob maes; a'r meysydd penodol a nodwyd oedd y cynnydd mewn ymgysylltu â myfyrwyr mewn sefydliadau partner gyda 60 cynrychiolydd cwrs wedi'u penodi, cynnydd o 15 ers 2019/20; ac ymgysylltu â 70 o fyfyrwyr yn y modiwl astudio Eiriolaeth. Roedd cyllid gan CCAUC a'r Loteri wedi galluogi'r Undeb Myfyrwyr i gynnig hyfforddiant cydnerthedd i fyfyrwyr, cynyddu oriau'r gwasanaeth cyngor i fyfyrwyr, gwella'r cynnig i fyfyrwyr o ran digwyddiadau llesiant a chymdeithasol, a phrynu trwyddedau ar gyfer yr ap rhwydweithio cymdeithasol 'Umii' ar gyfer myfyrwyr a meddalwedd hygrychedd 'Recite Me' ar gyfer gwefan yr Undeb Myfyrwyr.</p> <p>Gofynnodd cynrychiolwyr yr Undeb Myfyrwyr am sicrwydd y byddent yn rhan o'r holl ddatblygiadau yn y Brifysgol yn y dyfodol a cheisiwyd rhagor o gefnogaeth ar gyfer cynhyrchu eu pecyn croeso. Byddai'r Is-Ganghellor yn darparu ei hymateb i'r Adroddiad Effaith yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd, ac yn y cyfamser canmolodd yr adroddiad am ei gynnwys trylwyr a'i gynllun gosod proffesiynol.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiadau.</p> | |
| 20.96 | Cyllideb 2021/22 | |
| | <p>Derbyniwyd: Cyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22.</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y gyllideb ddrafft a thynnodd sylw at y tybiaethau sail a'r pwysau ar gostau. Roedd y gyllideb yn cynnig gwarged gweithredol o 2.91%. Roedd twf yn parhau o ran Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ar-lein ac Addysg Drawswladol ac felly roedd yr adnoddau'n gysylltiedig â'r strategaethau arallgyfeirio hyn wedi'u cynnwys. Roedd costau datblygu ar gyfer y ddarpariaeth iechyd gyfunol a ddyfarnwyd gan AaGIC yn ddiweddar wedi'i gynnwys hefyd, yn barod ar gyfer derbyn y myfyrwyr cyntaf ar y rhaglenni newydd ym Medi 2022.</p> <p>Pwyntiau eraill o nodwyd oedd: mae Grant Bloc yr Undeb Myfyrwyr wedi'i gynyddu ychydig o dan 4% i £385k fel y cynigiwyd gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid; cadwyd £400k ar gyfer y rhaglen mân waith cyfalaf; ffactorwyd y codiad cyflog ar 2% er mai'r cynnig cyfredol gan y cyflogwyr yw 1.5%; a chynhwyswyd dyraniad llawn y cyllid credydau rhan amser ar gyfer 2021/22, ac roedd hyn £100k yn llai nag yn 2020/21.</p> <p>Disgwylid i gyllideb Gwyddoniaeth Gogledd Cymru adennill costau, gyda chyllideb Glyndwr Innovations Ltd (GIL) yn dangos colled bach, a fyddai'n welliant ar y sefyllfa yn 2020/21 ac roedd cyllideb Glyndwr Services Ltd (GSL) yn dangos gwarged bach a fyddai'n cael ei roi'n ôl i'r Brifysgol trwy gymorth rhodd.</p> <p>Edrychodd yr aelodau ar ragolygon GIL yn bodloni ei darged yn y gyllideb, o ystyried perfformiad y cwmni yn 2020/21 ac effaith negyddol pandemig Covid-19. Roedd trafodaethau diweddar yng nghyfarfodydd Bwrdd GIL a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi edrych ar bwrsas a gweithgareddau ehangach yng nghanolfan OpTIC a oedd wedi gwneud cyfraniad pwysig i weithgareddau ymchwil a datblygiad y Brifysgol. Roedd Bwrdd GIL wedi gwneud cais am adolygu'r model adroddiadau ariannol er mwyn adlewyrchu'r gweithgareddau yn OpTIC yn fanylach.</p> <p>Bu'r aelodau'n ystyried hyder y rheolwyr yn niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol, o gofio'r ansicrwydd yn y farchnad. Mewn ymateb i hyn adroddwyd fod y ffigurau yn y gyllideb yn geidwadol, roedd perthnasoedd gwaith da wedi'u sefydlu ag asiantau</p> | |

| | | |
|--------------|---|-----------------------------------|
| | <p>a benodwyd, roedd yr arferion recriwtio'n parhau'n gyson ac roedd y niferoedd wedi goresgyn yr amcangyfrifon hyd yma. Roedd canllawiau diweddar y llywodraeth yn nodi y gallai dysgu cyfunol barhau tan ddechrau 2022, fel na fyddai rheidrwydd ar yr holl fyfyrwyr o'r India i deithio i'r Deyrnas Unedig yn Medi 2021, yn ffactor cadarnhaol hefyd.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO cyllideb 2021/22.</p> | |
| 20.97 | Rhagfynegiadau ariannol | |
| | <p>Derbyniwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Cynigion rhagfynegiadau ariannol drafft 2022/23 - 2024/25. ii. Rhagfynegiadau llif arian hyd at fis Gorffennaf 2025. <p>20.97.01 Cynigion rhagfynegiadau ariannol drafft</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad yn tynnu sylw fod costau cynyddol wedi'u cynnwys yn y rhagfynegiadau i gefnogi'r cynnydd yn yr incwm. Roedd y rhagfynegiadau'n ceisio dangos cynaliadwyedd y sefyllfa dwf yn unol â'r Weledigaeth a Strategaeth 2025.</p> <p>Nodwyd fod CCAUC wedi gofyn i'r holl sefydliadau ragfynegi niferoedd myfyrwyr israddedig sefydlog ym mlynnyddoedd dau a thri y rhagfynegiadau. Elfen allweddol i'r rhagfynegiadau fyddai cyflawni'r niferoedd israddedigion amser llawn yn 2021/22 a thwf yn niferoedd y myfyrwyr Addysg Trawswladol a rhyngwladol.</p> <p>Nid oedd contractau AaGIC wedi'u cynnwys yn y rhagfynegiadau hyd yma, ac felly'r bwriad yw ailedrych ar hyn yn yr Hydref i'w gyflwyno i'r Bwrdd a CCAUC. Roedd CCAUC yn ymwybodol fod y cytundebau AaGIC wedi'u dyfarnu.</p> <p>Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid fyfyrion ar gynhyrchu cyllideb gwariant cyfalaf a rhagfynegiad llif arian cyfalaf i'w cyflwyno yn 2022.</p> <p>Ystyriodd yr aelodau effaith y strategaeth arallgyfeirio ar faint a siâp y Brifysgol yn ystod y tair blynedd nesaf. Roedd Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor a Bwrdd yr Is-Ganghellor yn adolygu cydbwysedd y dylliau addysg ac yn datblygu fframwaith cynllunio academaidd. Byddai maint a siâp y Brifysgol yn y dyfodol yn cael ei drafod yn y Diwrnod Strategaeth ym mis Medi.</p> <p>20.97.02 Rhagfynegiadau llif arian</p> <p>Adroddwyd: Roedd y sefyllfa arian parod yn dda ar draws cyfnod y rhagfynegiadau, wedi'i helpu gan gyllid CCAUC, blaendaliadau ffioedd dysgu myfyrwyr rhyngwladol a derbyniadau cyfalaf yn deillio o waredu'r Chwarter Gogleddol a safle Gatewen. Nid oedd derbyniadau cyfalaf o safle Ffordd y Deon wedi'u cynnwys gan nad oedd wedi'i farchnata hyd yma, ac ni chynhwyswyd unrhyw wariant yn gysylltiedig â Champws 2025. Nid oedd unrhyw ofyniad am gyfleuster cyfalaf gweithiol yn ystod cyfnod y rhagfynegiadau yn gyfredol.</p> <p>Cynghorodd yr aelodau y byddai'n ddarvoudus cael cyfleuster cyfalaf gweithiol yn ei le cyn fod ei angen, er enghraifft, i gynorthwyo gyda rheoli camau'r gwaith cyfalaf mawr. Adroddwyd, er nad oes trefniant ffurfiol yn bodoli, roedd bancwyr y Brifysgol yn debygol o barhau i roi cyfleuster gorddrafft £2.5m dros dro, fel roeddynt wedi'i wneud yn y gorffennol.</p> | <p>DE</p> <p>DE</p> |

| | | |
|---------------|--|--|
| | <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO'R rhagfynegiadau i'w cyflwyno i CCAUC yn y ffurf gofynnol.</p> | |
| 20.98 | <p>Adroddiad Rheolaeth Ariannol</p> <p>Derbyniwyd: Adroddiad Rheolaeth Ariannol hyd at 31 Mai 2021.</p> <p>Adroddwyd: Mae Grŵp y Brifysgol ar y trywydd cywir i gyflawni'r gwarged net a ragfynegwyd o £1,532k gyda rhagfynegiad arian parod diwedd y flwyddyn o £20.1m, yn cynnwys y derbyniadau arian parod o werthu safleoedd y Chwarter Gogleddol a Gatewen. Roedd y perfformiad yn gadarnhaol yn erbyn yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, a rhagfynegwyd y byddent yn goresgyn y targedau erbyn diwedd y flwyddyn.</p> <p>Roedd yr amrywiad mwyaf o'i gymharu â'r rhagfynegiad flaenorol yn ymwneud â gwelliant o £377k ar gyfer ffioedd dysgu, lle roedd llai o ffurflenni credyd ar gyfer ffioedd israddedigion amser llawn wedi'u cyhoeddi nag a ragfynegwyd yn flaenorol, wedi'i ysgogi gan ddychweliad y Student Loan Company ym mis Mai.</p> <p>Y sefyllfa ddiweddaraf o ran credydau rhan amser oedd ei bod yn debygol y byddai'n rhaid ad-dalu oddeutu £340k i CCAUC, a oedd yn well na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R Adroddiad Rheolaeth Ariannol.</p> | |
| 20.99 | <p>Cynllun Ffioedd a Mynediad 2022/23</p> <p>Derbyniwyd: Y Cynllun Ffioedd a Mynediad 2022/23 a gyflwynwyd i CCAUC ar 18 Mehefin 2021.</p> <p>Adroddwyd: Nid oedd CCAUC wedi hysbysu fod unrhyw broblemau o ran y Cynllun hyd yma.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO'R Cynllun Ffioedd a Mynediad 2022/23 a chytuno y dylai'r Cadeirydd lofnodi'r ddogfen.</p> | |
| 20.100 | <p>Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2021</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor y canlyniadau pennawd a oedd yn cynnwys cyfradd ymateb 76%, wedi cynyddu o 72% yn 2020, a 69% ar draws y sector a 73% yng Nghymru.</p> <p>Roedd y boddhad cyffredinol yn 75.3% o'i gymharu â 75.4% ar draws y sector a 76% yng Nghymru, gan roi'r Brifysgol yn y pedwerydd safle yng Nghymru. Roedd y lleihad mewn boddhad cyffredinol yn ddisgwyliedig o gofio effaith pandemig Covid -19.</p> <p>Mae Prifysgol Glyndŵr yn y safle cyntaf yn y Deyrnas Unedig ar gyfer boddhad cyffredinol gyda Nyrsio Oedolion, gyda sgorau dros 86% mewn cymdeithasol, cwnsela, seicotherapi a therapi galwedigaethol, astudiaethau dylunio a gwaith cymdeithasol. Roedd y Brifysgol hefyd ar y brig yng Nghymru ar gyfer <i>addysgu ar fy nghwrs, asesu ac adborth a chymorth academiaidd</i> ac ar neu'n uwch na'r</p> | |

| | | |
|---------------|--|-----------|
| | <p>meincnod ar draws yr holl feysydd ac eithrio adnoddau dysgu, a oedd ychydig yn is na meincnod y Deyrnas Unedig.</p> <p>Byddai dadansoddiad manylach yn cael ei ddsbarthu gynted ag y bo ar gael.</p> <p>Roedd aelodau'r Bwrdd yn dymuno cofnodi eu llongyfarchiadau a'u diolchiadau i'r holl staff a'r Undeb Myfyrwyr am ganlyniad gwych dan amgylchiadau heriol.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p> | VB |
| 20.101 | Arolwg Deilliannau Graddedigion 2018/19 | |
| | <p>Derbyniwyd: Diweddariad ar gyhoeddi'r Arolwg Deilliannau Graddedigion 2018/19.</p> <p>Adroddwyd: Fod gwaith yn cael ei wneud i ddadansoddi canlyniadau'r arolwg a chymharu'r data.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R diweddariad a CHYTUNO i dderbyn yr Arolwg Deilliannau Graddedigion trwy gylchrediad e-bost, er gwybodaeth.</p> | |
| 20.102 | Adroddiad y Cadeirydd | |
| | <p>Adroddwyd: Hysbysodd y Cadeirydd am ddigwyddiadau y bu'n rhan ohonynt ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai, yn cynnwys mynd i gyfarfodydd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a materion Llywodraeth Cymru. Roedd wedi cyfarfod pob un o'r llywodraethwyr newydd yn unigol.</p> <p>Fel aelod o'r Grŵp Arweiniad Addysg Uwch adroddodd y Cadeirydd am adolygiad y canllawiau Covid-19 ar gyfer Medi 2021 gan y Grŵp. Roedd yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch mesurau Covid-19 a fyddai'n gweld grwpiau sefydlog o hyd at 30 o bobl gyda grwpiau hyblyg o hyd at 6 o bobl yn cadw pellter cymdeithasol o ddwy fetr. Nid oedd y Grŵp wedi trafod fod Llywodraeth Cymru'n ystyried symud i lefel sero hyd yma, ond roedd yn debygol na fyddai unrhyw gyfyngiadau ar niferoedd mewn dosbarthiadau a byddai'r capasiti ar y campws yn cynyddu'n raddol yn unol â'r Fframwaith Dysgu Gweithredol, gydag asesiadau risg yn ofynnol gan sefydliadau.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p> | |
| 20.103 | Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd | |
| | <p>Derbyniwyd: (i) Adroddiad a chofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd Academaidd ym mis Mai a Gorffennaf 2021. (ii) Siarter Myfyrwyr 2021/22.</p> <p>Adroddwyd: Cynhaliwyd Adolygiad Datblygu Prentisiaethau Gradd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yn ddiweddar ac roedd nifer o argymhellion wedi'u cyflwyno yr oedd angen eu gweithredu. Y prif faterion angen gweithredu oedd yr angen am ymgysylltu mwy cynhwysfawr gan gyflogwyr ym mhob agwedd y rhaglenni prentisiaeth, mireinio'r gweithdrefnau dilysu a gwella'r gwahaniaethu rhwng rhaglenni gradd prentisiaeth a gradd safonol i ddiffinio natur benodol y rhaglenni prentisiaeth. Roedd y Brifysgol yn gweithio'n agos gyda, ac wedi</p> | |

| | | |
|---------------|--|--|
| | <p>cynhyrchu cynllun gweithredu ar y cyd â'r Undeb Myfyrwyr, cynrychiolwyr cyflogwyr a'i phartner cyflawni, Grŵp NPTC.</p> <p>Cynghorwyd yr aelodau y byddai unrhyw fyfyrwyr newydd ar raglenni prentisiaeth yn cael eu hoedi tan yr ail dymor i roi amser i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn llawn, a bod goblygiadau'r oedi hyn i'r gyllideb yn cael eu cyfrifo. Roedd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu.</p> <p>[Nodyn yr Ysgrifennydd: Mae gan CCAUC ddyletswydd statudol ynghylch ansawdd addysg a dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Mae'r dyletswydd hwn yn grymuso CCAUC i <i>'roi cyngor neu gymorth i sefydliadau gyda'r nod o wella ansawdd addysg, neu atal yr addysg rhag mynd yn annigonol'</i> ac i <i>'roi cyfarwyddiadau i sefydliad wella ansawdd addysg, neu atal yr ansawdd rhag mynd yn annigonol.'</i></p> <p>Ysgrifennodd Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Dadansoddi CCAUC at y Dirprwy Is-Ganghellor a dosbarthwyd y llythyr, adroddiad llawn yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a'r cynllun gweithredu i aelodau'r Bwrdd ar 21 Gorffennaf 2021. Bydd y Panel Craffu Ansawdd a Safonau yn ystyried yr adroddiad llawn yng nghyfarfod y Panel ar 21 Hydref a bydd hefyd yn adolygu adroddiad ar roi'r cynllun gweithredu ar waith er mwyn cynorthwyo'r Bwrdd i gwblhau'r datganiadau sicrwydd blynyddol i CCAUC.]</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R cofnodion a CHYMERADWYO'R fformat diwygiedig wrth symud ymlaen.</p> <p>NODI Siarter Myfyrwyr 2021/22.</p> | |
| 20.104 | Adroddiad Risgiau Corfforaethol | |
| | <p>Derbyniwyd: Crynodeb risgiau corfforaethol a Map Gwres Risgiau, Mehefin 2021</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, gan nodi na fu newid yn y sgorau risg. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried diffyg cyflawni'r targedau datgarboneiddio a chynaliadwyedd amgylcheddol fel risgiau potensial ym mis Mehefin, a derbyniwyd adroddiad rhagorol gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ar y gwaith a oedd yn cael ei wneud yn y meysydd hyn yn unol â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Brifysgol.</p> <p>Tynnwyd sylw at drafodaethau'r Pwyllgor Archwilio ynghylch diffiniadau difrifoldeb risg cyffredinol, yn enwedig o ran recriwtio myfyrwyr a chynaliadwyedd ariannol. Gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol adolygu'r diffiniadau risg yn ystod eu hadolygiad manwl y gofrestr risgiau dros gyfnod yr haf. Nodwyd y dylai risg ymwneud â'r dyfodol yn hytrach na'r gorffennol ac y gellid ystyried anwadalrwydd a chyflymder risgiau.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad.</p> | |
| 20.105 | Pwyllgorau'r Bwrdd | |
| | 20.105.01 Y Pwyllgor Archwilio | |
| | <p>Derbyniwyd: (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2021. (ii) Adroddiad blynyddol y Pwyllgor 20/21 a chynllun gwaith 2021/22.</p> | |

| | | |
|---|---|--|
| | <p>Penderfynwyd:</p> <p>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mehefin 2021.</p> <p>NODI Adroddiad blynyddol y Pwyllgor 20/21 a chynllun gwaith 2021/22.</p> <p>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 11 Mehefin wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> | |
| 20.105.02 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | | |
| | <p>Derbyniwyd:</p> <p>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2021 yn cynnwys diweddariad am y chwilio am Gadeirydd newydd i'r Bwrdd ac Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd 2021/22.</p> <p>(ii) Adroddiad blynyddol y Pwyllgor 20/21 a chynllun gwaith 2021/22.</p> <p>(iii) Cyfansoddiad Undeb Myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.</p> <p>(iv) Memorandwm Cytundeb Undeb Myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a'r Brifysgol.</p> <p>(v) Cod Ymarfer Gweithredu'r Undeb Myfyrwyr.</p> <p>(vi) Cytundeb Perthynas rhwng y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr.</p> <p>Penderfynwyd:</p> <p>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mehefin 2021.</p> <p>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 17 Mehefin wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI Adroddiad blynyddol y Pwyllgor 2020/21 a chynllun gwaith 2021/22.</p> <p>CYMERADWYO Cyfansoddiad Undeb Myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a'r Memorandwm Cytundeb am bum mlynedd.</p> <p>CYMERADWYO'R Cytundeb Perthynas am flwyddyn arall.</p> <p>CYMERADWYO'R dull o gynnal cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn y dyfodol.</p> <p>NODI'R Cod Ymarfer Gweithredu'r Undeb Myfyrwyr.</p> | |
| 20.105.03 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol | | |
| | <p>Derbyniwyd:</p> <p>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2021.</p> <p>(ii) Adroddiad blynyddol y Pwyllgor 20/21 a chynllun gwaith 2021/22.</p> <p>Adroddwyd:</p> <p>Nododd Cadeirydd y Pwyllgor ganlyniadau cadarnhaol yr adolygiad arferion da o ran tân gan drydydd parti. Tynnwyd sylw at y gwaith arwyddocaol yn cael ei wneud ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chydraddoldeb hil hefyd.</p> <p>Penderfynwyd:</p> <p>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2021.</p> <p>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 17 Mehefin wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> | |

| | | |
|---------------|--|--|
| | NODI Adroddiad blynyddol y Pwyllgor 20/21 a chynllun gwaith 2021/22. | |
| | 20.105.04 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid | |
| | <p>Derbyniwyd: Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2021.</p> <p>Adroddwyd: Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y cyflwyniad defnyddiol gan yr Is-Ganghellor i egluro cyfraniad canolfan OpTIC i Grŵp y Brifysgol y tu hwnt i'r gwaith a wneir trwy gyfrwng Glyndŵr Innovations Ltd. Byddai'r Pwyllgor yn parhau i fonitro'r sefyllfa.</p> <p>Penderfynwyd: NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2021.</p> <p>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 25 Mehefin wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI Adroddiad blynyddol y Pwyllgor 20/21 a chynllun gwaith 2021/22.</p> | |
| 20.106 | Unrhyw fater arall | |
| | <p>Diolchodd y Cadeirydd i Laura Gough am ei chyfraniad i waith y Bwrdd dros y pedair blynedd ddiwethaf, gan nodi fod proses enwebu'n cael ei chynnal ar hyn o bryd, ac y gallai'r Bwrdd fod yn ei chroesawu'n ôl ym mis Medi.</p> <p>Diolchwyd i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor am eu gwaith cyson, wedi'i ffocysu, yn cadw'r Brifysgol yn gweithredu ac yn cynnal profiadau myfyrwyr yn ystod blwyddyn heriol arall. Canmolwyd ansawdd yr adroddiadau a'r cynigion a gyflwynwyd gerbron y cyfarfod.</p> | |

Diwedd